**Teitl y swydd:** Seicolegydd Clinigol

**Oriau:** 3.5 awr yr wythnos (0.1 cyfwerth ag amser cyflawn)

**Cytundeb**: Cyfnod penodol gyda'r potensial am leoliad parhaol

**Cyflog** £67,000 y flwyddyn (cyfwerth ag amser cyflawn), pro rata ar gyfer oriau rhan-amser.

**Lleoliad:** Ein Canolfan Plant yn Llanisien, Caerdydd ond mae gennym fodel gweithio hybrid lle mae modd gweithio gartref

**Rheolwr Llinell:** Pennaeth Therapi

**Crynodeb:** Rhoi cymorth ac asesiadau seicolegol i blant gyda pharlys yr ymennydd a'u teuluoedd fel rhan o dîm amlddisgyblaethol.

**Amlinelliad o'r Swydd:**

Rhoi cymorth seicolegol arbenigol i blant a theuluoedd sy'n mynychu sefydliad Parlys yr Ymennydd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiadau ac ymyriadau arbenigol fel y bo'n briodol i oedolion a phlant, yn ogystal â gweithio gyda iechyd meddwl rhiant-baban. Rhoi arweinyddiaeth glinigol i ddatblygu gofal seicolegol effeithiol fel rhan o dîm amlddisgyblaethol, gan ddarparu gwasanaethau i blant gyda pharlys yr ymennydd a'u teuluoedd. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'n tîm Therapi a'n Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd.

---

**<u>Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau</u>**

**<u>Cyfrifoldebau Clinigol</u>**

a) Darparu asesiadau seicolegol a dadansoddiadau hynod arbenigol o fabanod, plant ac oedolion ifanc sydd â pharlys yr ymennydd, gan gynnwys plant y nodwyd eu bod yn wynebu risg o gael parlys yr ymennydd, gan gyfeirio'n benodol at fabanod a rhieni yn ystod y cyfnod amenedigol, a hynny gan ddefnyddio gwybodaeth gadarn am theori ac ymarfer seicolegol.

b) Datblygu cynlluniau therapi seicolegol/seicotherapiwtig hynod arbenigol, seiliedig ar dystiolaeth, unigoledig sydd wedi'u seilio ar anghenion cleifion, yn bennaf ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol, cydafiachedd ac anghenion iechyd meddwl eraill, gan gynnwys teuluoedd gyda phlant sydd ag anghenion cymhleth o dan 5 mlwydd oed ac ar gyfer iechyd meddwl rhiant a baban a rhoi'r cynlluniau hynny ar waith.

c) Creu adroddiadau manwl, cywir a dadansoddol o ganfyddiadau sy'n adlewyrchu gwaith dadansoddi arbenigol ac i sicrhau y caiff y rhain eu cwblhau o fewn yr amserlen ddynodedig.

ch) Cynnal gwerthusiadau a gwneud penderfyniadau medrus iawn ar opsiynau therapi, gan ystyried modelau damcaniaethol a therapiwtig a ffactorau

cymhleth eraill yn ymwneud â'r unigolyn, y teulu neu'r grŵp. Gall cynllunio rhaglenni therapi olygu trafod gydag ymarferwyr iechyd allanol neu asiantaethau eraill. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan gyfarwyddiadau ysgrifenedig, ffotograffau a/neu fideos fel y bo'n briodol.

d) Gwerthuso effeithiolrwydd clinigol a chynnydd cleifion fel y bo'n briodol ac addasu / diwygio ymyriadau yn unol â hynny.

dd) Rheoli baich achosion clinigol, gan fod yn atebol ar lefel broffesiynol a chyfreithiol am bob agwedd ar eich gwaith eich hun, gan gynnwys cofnodion, heb oruchwyliaeth uniongyrchol.

e) Cefnogi a datblygu sgiliau therapyddion wrth gefnogi rhieni a chydberthnasau rhiant-babanod cadarnhaol

f) Defnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu llafar a dieiriau gyda phlant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol allanol i gyfleu gwybodaeth sensitif a chymhleth mewn fformat dealladwy mewn perthynas â materion yn ymwneud â diagnosis, cynnydd a thriniaeth. Cydnabod pryd i ofyn am gyngor ar y materion hyn gan uwch-gydweithwyr, gan gynnwys y Pennaeth Therapi

ff) Defnyddio sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu gwych i ddangos empathi a rheoli materion cymhleth, anodd a dadleuol gyda chleifion, teuluoedd/gofalwyr a chydweithwyr, gan sicrhau y caiff cyfathrebu ei gyflawni'n effeithiol, yn enwedig lle mae rhwystrau i ddealltwriaeth yn bodoli.

g) Defnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu llafar a dieiriau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a gofalwyr yn y broses therapiwtig.

ng) Sicrhau bod dull, dilyniant ac amlder y therapi yn briodol i anghenion ac amgylchiadau unigol ac i'r adnoddau sydd ar gael.

h) Addasu ymarfer lle y bo'n bosibl er mwyn ystyried materion diwylliannol ac amrywiaeth.

i) Dangos hyblygrwydd ac addasrwydd wrth reoli baich achosion clinigol.

j) Gweithredu fel Arweinydd Clinigol ar gyfer Iechyd Meddwl i rieni, teuluoedd a phlant a chynghori cydweithwyr clinigol ac arweinwyr eraill am agweddau ar y gwasanaeth lle y mae angen mynd i'r afael â materion seicolegol.

**<u>Proffesiynol</u>**

a) Cymryd rhan yng nghynlluniau arfarnu'r sefydliad, gan sicrhau bod yr amcanion a osodwyd yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth a chynlluniau strategol y Ganolfan, yn ogystal â datblygiad proffesiynol parhaus yr unigolyn.

b) Mynychu trafodaethau ar achosion a sesiynau tiwtorial a'u harwain.

c) Bod yn gyfrifol am gynnal eich cymhwysedd eich hun i ymarfer drwy weithgareddau DPP, a chadw portffolio, sy'n adlewyrchu eich datblygiad personol.

ch) Cynnal addasrwydd i ymarfer o fewn safonau'r corff proffesiynol priodol a'r cod ymddygiad proffesiynol.

d) Ymgymryd â'r gwaith o gasglu data ar gyfer archwiliad gwasanaethau neu brosiectau ymchwil fel y gofynnwyd amdano.

dd) Arwain y gwaith o gynllunio systemau a'u rhoi ar waith er mwyn gwerthuso, monitro a datblygu mewnbwn seicolegol i gleifion a theuluoedd yn sefydliad Parlys yr Ymennydd Cymru.

e) Cyflawni prosiectau archwilio a chefnogi gwaith ymchwil glinigol ym mhob rhan o'r tîm therapi.
f) Bod yn gyfrifol am eich datblygiad ei hun a gwneud cynnydd mewn sgiliau a gwybodaeth gyda chymorth cymheiriaid ac uwch-weithwyr.

**Cyfrifoldebau ychwanegol**

a) Cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm ac ymgysylltu â'r tîm ehangach o staff pan fo'n briodol.
b) Gweithio'n weithgar gyda phobl eraill (mewnol ac allanol) er mwyn hwyluso gwelliannau a newidiadau trefniadol ac adrannol, yn unol â strategaethau ledled yr elusen
c) Cynnal cyfrinachedd drwy'r amser a glynu wrth bolisi cyfrinachedd Parlys yr Ymennydd Cymru
ch) Dilyn a chadw i fyny â pholisïau a gweithdrefnau'r elusen
d) Cyflawni unrhyw dasgau rhesymol eraill a all fod yn ofynnol
dd) Cynnal ymwybyddiaeth o waith Parlys yr Ymennydd Cymru
e) Cyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, sefydliadau partner, rhanddeiliaid o bob math, a defnyddwyr gwasanaethau

**Manyleb Person**

| | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Cymwysterau / Addysg | 1. Hyfforddiant ôl-raddedig mewn cwnsela/seicoleg fforensig (neu gymhwyster cyfatebol cyn 1996) a achredir gan Gymdeithas Seicoleg Prydain.<br>2. Cofrestriad â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd fel Ymarferydd Seicoleg<br>3. Aelod o Gymdeithas Seicolegol Prydain.<br>4. Hyfforddiant ôl-ddoethurol mewn un maes ymarfer seicolegol neu fwy sy'n berthnasol i bediatreg neu iechyd meddwl rhiant-babanod. | |
| Profiad | 1. Profiad o weithio fel seicolegydd cymhwysol cymwys mewn gwasanaeth clinigol ar draws amrywiaeth eang o grwpiau cleientiaid a lefelau o ddifrifoldeb clinigol.<br>2. Profiad o weithio gyda theuluoedd yn ystod y cyfnod amenedigol.<br>3. Profiad o weithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd.<br>4. Profiad o gyfrifoldeb clinigol llawn ar gyfer gofal seicolegol cleient yng nghyd-destun tîm amlddisgyblaethol.<br>5. Profiad o ansawdd a gwella gwasanaethau<br>6. Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | 1. Profiad o arwain hyfforddiant mewn swydd i gydweithwyr<br>2. Profiad o oruchwylio neu reoli |
| Gwybodaeth a Sgiliau | 1. Gwybodaeth am ymarfer seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol i'r rôl<br>2. Gwybodaeth am asesu risg seicolegol a rheoli risg<br>3. Gwybodaeth am lywodraethu clinigol<br>4. Gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r grŵp cleientiaid ac iechyd meddwl.<br>5. Sgiliau cyfathrebu hynod ddatblygedig ac effeithiol<br>6. Sgiliau llunio adroddiadau ardderchog<br>7. Sgiliau cyfrifiadurol da gan gynnwys MS 365<br>8. Dull datrys problemau tuag at therapi a bywyd gwaith | 1. Sgiliau addysgu<br>2. Gwybodaeth am fethodoleg ymchwil ym maes seicoleg. |
| Arall | 1. Yn gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun yn effeithiol<br>2. Yn gallu cadw nodiadau cywir<br>3. Yn gallu rheoli eich llwyth achosion eich hun<br>4. Yn gallu gweithio fel aelod effeithiol o dîm trawsddisgyblaethol a chyfrannu at amgylchedd gwaith cadarnhaol | 1. Siaradwr Cymraeg<br>2. Trwydded yrru lawn a mynediad at gerbyd personol |